FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

# Canllawiau Aelodaeth

## Cyflwyniad

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, yn hyfforddi ac yn cynghori sefydliadau sy'n sgrinio ffilm, o wyliau ffilm, i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydol cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 270 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau annibynnol y DU a ffilmiau rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru. Roeddem hefyd yn falch o arwain strategaeth Sinema Gynhwysol y DU ar ran FAN BFI 2017-23.

Rydym yn rhan o rwydwaith wyth canolfan yn y DU a gyllidir gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) fel rhan o Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Mae Chapter wedi'i benodi fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm (FHLO) yng Nghymru.

Os ydych chi'n sgrinio ffilmiau i gynulleidfa gyhoeddus, gallwch ddod yn aelod ac elwa o'n hymchwil, cyrsiau hyfforddi, bwrsariaethau, cronfeydd, cyngor a mwy.

Diolch i arian y Loteri Genedlaethol, ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013, rydyn ni wedi cefnogi dros 347 o brosiectau sinema, gan gyrraedd dros 589,000 o aelodau'r gynulleidfa. Cymerwch olwg ar rai o'r uchafbwyntiau hyd yma i ddarganfod beth rydyn ni wedi'i ariannu yn y gorffennol a phrosiectau rydyn ni wedi'u creu.

# Y Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm

Gyda chefnogaeth arian y Loteri Genedlaethol, mae'r Rhwydwaith Cynulleidfas Ffilm BFI (FAN), yn ganolog i nod y BFI i sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb.

Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema'r DU ehangach a mwy amrywiol ar gyfer ffilmiau DU Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad unigryw, ledled y DU sy'n cynnwys wyth Canolfan a reolir gan sefydliadau ffilm a lleoliadau blaenllaw sydd wedi'u gosod yn strategol ledled y wlad.

Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Gweithredwyr Talent RHWYDWAITH Y BFI ym mhob un Canolfan yn Lloegr. Y nod yw darganfod a chefnogi ysgrifenwyr, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr dawnus ar gychwyn eu gyrfa, a'r 'BFI Academy Plus' sy'n darparu gweithgareddau i egin wneuthurwyr ffilmiau ifanc a chynulleidfaoedd. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys digwyddiadau, dosbarthiadau meistr a bwrsarïau i'r rheiny sy'n 16-25 mlwydd oed.

# Ein Blaenoriaethau

- **Cynulleidfaoedd Ifanc:** Cyfleoedd i blant, pobl ifanc (25 oed ac iau) a theuluoedd i ddatblygu perthynas gyda diwylliant y sgrin,
- **Ymgysylltu â'r cyhoedd**: Mynediad i ddewis ehangach o ffilmiau a delweddau byw gan gynnwys ffilmiau annibynnol y DU (yn cynnwys ffilmiau o Gymru) a ffilmiau rhyngwladol, ffilmiau dogfen, teledu a threftadaeth sgrin i bobl ledled Cymru,
- **Treftadaeth Sgrin**: Rhagor o fynediad at gasgliadau archif cenedlaethol a rhanbarthol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru ac sy'n cynyddu gwerthfawrogiad o dreftadaeth ffilm ar draws pob oedran,
- **Sgiliau:** Hybu gweithlu medrus ac amrywiol ar draws aelodaeth Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm,
- **Ecwiti a Chynhwysiant:** Amrywio'r cynulleidfaoedd ar gyfer ystod eang o sinema, gan chwalu rhwystrau cymdeithasol, economaidd a daearyddol,
- **Cynaliadwyedd Amgylcheddol:** Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau unrhyw effaith negyddol caiff y gwaith rydyn ni'n ei gefnogi ar yr amgylchedd, a gofynnwn i bob aelod ystyried ymwybyddiaeth y gynulleidfa o'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

Er mwyn ymuno, rhaid i aelodau rannu gweledigaeth FAN a'r blaenoriaethau strategol a nodir yn: **strategaeth BFI Screen Culture 2033**.

# Aelodaeth

Mae aelodaeth Canolfan Ffilm Cymru AM DDIM i gyrff cymwys ac mae'n cynnig amrediad o fanteision yn cynnwys:

- **Cyfleoedd cyllido** datblygu cynulleidfa a bwrsarïau ar gyfer hyfforddi, yn unol ag amcanion FAN,
- **Dysgu** - mynediad i gyrsiau a digwyddiadau hyfforddi, ymgynghoriad a chefnogaeth ymhlith cyfoedion,
- **Rhwydweithio** - Mynychu digwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd a gynhelir gan y Ganolfan a'i phartneriaid ar draws FAN,
- 
- **Cydweithio** - cymryd rhan mewn prosiectau ar y cyd yn seiliedig ar raglennu a datblygu cynulleidfa, a hynny ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol,
- **Cyngor** - ar draws ystod eang o bynciau, megis rhaglennu, datblygu cynulleidfa a dangos ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig,
- **Data** - mynediad i ymchwil am dueddiadau'r gynulleidfa ac arddangos ffilmiau,
- **Cefnogaeth marchnata** - hyrwyddo drwy wefannau'r ganolfan a FAN, rhestrau postio a sianeli cyfryngau cymdeithasol,
- **Eiriolaeth** - cyfle i fod yn rhan o lais cyfunol cryf ar gyfer arddangos ffilm a chynulleidfaoedd.

# Sut i Ymuno

**Rydym yn croesawu ceisiadau aelodaeth gan unrhyw gorff sydd yn:**

- Dangos ffilmiau i gynulleidfaoedd cyhoeddus neu i'w aelodaeth (neu sydd â chynlluniau i wneud hynny o fewn y cyfnod o 12 mis ers ymuno),

**ac/neu**

- Sydd â diddordeb mewn ehangu'r amrediad o ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd a chyfoethogi gwerth diwylliannol y gweithgaredd dangos ffilmiau yn y gymuned.

# Mae cyrff cymwys yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

- Sinemâu (annibynol a chylchoedd lleol/cenedlaethol),
- Lleoliadau celfyddydu cymysg,
- Cymdeithasau ffilm yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr a sinemâu cymunedol,
- Sinemâu teithiol a rhwydweithiau sgrin cymunedol,
- Gwyliau ffilm,
- Archifau sgrin,
- Digwyddiadau ffilm pop-yp rheolaidd,
- Sefydliadau academaidd,
- Amgueddfeydd ac orielau,
- Adrannau ac asiantaethau awdurdodau lleol,
- Asiantaethau datblygu lleol a rhanbarthol,
- Grwpiau cymunedol a darparwyr hamdden.

**I ddod yn aelod, llanwch y ffurflen gais, ynghyd â'r datganiad (yma).**

# Nodwch mai

- Rhaid i gyrff fod â chyfansoddiad ffurfiol (e.e. fel cwmni buddiant cymunedol neu yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig cofrestredig yn Nhŷ'r Cwmnïau);
- Awdurdod Lleol neu gorff statudol;
- Grŵp gwirfoddol gyda chyfansoddiad ysgrifenedig a chyfrif banc.

# Cefnogaeth

- Dim ond i aelodau y mae'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth ariannol gan y Ganolfan ar gael.
- Efallai na fyddwch yn gymwys yn awtomatig ar gyfer cynlluniau neilltuol ac fe ddylech wirio'r canllawiau ar gyfer y manylion llawn.
- Dydy unigolion preifat ddim yn gymwys ar gyfer aelodaeth FAN ond fe'u hannogir i ymuno gyda newyddlen Canolfan Ffilm Cymru a chadw mewn cysylltiad gyda datblygiadau o amgylch Cymru a'r DU.

# Manylion Cyswllt


- **Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau** – lisa@filmhubwales.org / 02920 311067
- **Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru** – hana@filmhubwales.org / 02920 353740